# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-24-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 26 Medi 2006
### Amser y Cyfarfod: 9:30am
### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

### Aelodau Cynulliad yn Bresennol:

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Janice Gregory, Christine Gwyther, Ann Jones

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-24-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd unrhyw bwyntiau i'w trafod, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud ymlaen i drafod deddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 O ran yr Offerynau Statudol canlynol, cytunodd Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1348 – Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu a Chigydda) (Cymru) 2006

LC1349 – Rheoliadau Swn Amgylcheddol (Cymru) 2006

## Eitem 5: Deddfwriaeth Rheol Sefydlog 29

5.1 O ran y ddeddfwriaeth ganlynol, cytunodd Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1350 – Dyfarniad Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categorïau o Waith ac Uchafsymiau Grant) (Rhif 3) (Cymru) 2006

**Camau i'w cymryd:**

Nid oedd unrhyw gamau i'w cymryd.

## Eitem 6: Gohebiaeth y Pwyllgor

Llythyr gan yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol ynghylch Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004: Gweithredu darpariaethau'r "Cynllun Datblygu Lleol"

6.1 Wedi trafod y llythyr gan Dîm yr Amgylchedd a Chynllunio, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n briodol diwygio'r ddeddfwriaeth weithredu fel offeryn statudol lleol os mai ei hunig effaith yw dileu cyfeiriad at awdurdod lleol unigol, ar yr amod iddi gael ei chyhoeddi a'i hargraffu, a hynny oherwydd ei bod yn diwygio is-ddeddfwriaeth gyffredinol y Cynulliad.

## Eitem 7: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

7.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 3 Hydref 2006.